# Canllaw datrys problemau

| SYMPTOM | ACHOS | DATRYSIAD POSIBL |
|---|---|---|
| **Dim sain** | • Cymorth clyw wedi'i ddiffodd | • Ailgychwynnwch y cymorth clyw drwy agor a chau drws y batri |
| | • Batri wedi marw | • Newidiwch y batri |
| | • Drws y batri ddim wedi'i gau'n iawn | • Gwnewch yn siŵr bod y batri wedi'i osod yn iawn a bod drws y batri wedi'i gau yn llwyr |
| | • Tiwb tenau / mowld clust wedi'i flocio | • Glanhewch y tiwb tenau / mowld clust |
| | • Anwedd dŵr yn nhiwb eich mowld clust | • Datgysylltwch eich cymorth clyw oddi wrth y mowld clust ac ysgydwwch y mowld clust i gael gwared ar unrhyw ddŵr. Rhowch y mowld clust mewn lle cynnes a sych am 15 munud cyn ei ailgysylltu â'ch cymorth clyw |
| **Sain yn rhy dawel** | • Tiwb tenau / mowld clust wedi'i osod yn anghywir | • Ailosodwch eich tiwb tenau / mowld clust |
| | • Tiwb tenau / mowld clust wedi'i flocio / cromen wedi'i blocio | • Glanhewch eich tiwb tenau / mowld clust / gosodwch gromen newydd |
| | • Hidlen cŵyr wedi'i blocio | • Newidiwch yr hidlen cŵyr |
| | • Rydych yn credu bod eich clyw wedi newid | • Cysylltwch â'ch adran Awdioleg leol |
| | • Gormod o gŵyr clustiau | • Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu nyrs practis |
| | • Lefel y sain wedi'i gosod yn rhy isel | • Codwch lefel y sain gan ddefnyddio'r botwm ar y ddyfais/y togl ar y cymorth clyw neu gan ddefnyddio ap BeMore |

# Canllaw datrys problemau (parhad)

| SYMPTOM | ACHOS | DATRYSIAD POSIBL |
|---|---|---|
| **Gormod o sŵn chwibanu / adborth** | • Tiwb tenau / mowld clust wedi'i osod yn anghywir | • Ailosodwch eich tiwb tenau / mowld clust |
| | • Gormod o gŵyr clustiau | • Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu nyrs practis |
| | • Tiwb tenau / tiwbin mowld clust wedi treulio neu wedi'i ddifrodi | • Gosodwch diwb tenau newydd/ newidiwch y tiwbin ar eich mowld clust |
| **Sain ystumiedig / aneglur** | • Batri gwan | • Newidiwch y batri |
| | • Mowld clust neu gromen ddim yn ffitio'n iawn | • Cysylltwch â'ch adran Awdioleg leol |
| | • Cymorth clyw wedi'i ddifrodi | • Cysylltwch â'ch adran Awdioleg leol |
| | • Nid yw gosodiadau'r cymorth clyw cystal ag y gallent fod | • Cysylltwch â'ch adran Awdioleg leol |

*Os cewch unrhyw broblemau eraill nad ydynt wedi'u rhestru yma, cysylltwch â'ch adran Awdioleg leol.*

I gael rhagor o gymorth, sganiwch y cod QR neu ewch i'n porth cymorth i gleifion yn: **danalogic.co.uk/patient-portal**

Y dewis cywir ar gyfer y GIG

danalogic GN

UK 02.19 C 9.2022